

Procuring Bilingual Software

Your quick-fire guide on how to specify bilingual requirements in a clear, unambiguous and measurable manner without discouraging suppliers.

For many organisations delivering services to citizens in Wales, procuring a software solution now requires that it is bilingual. This presents challenges in how to define this requirement and ensure it doesn't deter otherwise capable suppliers.

So, where do you start?

The Challenges

When procuring a software or web solution where bilingual capabilities are needed, this has often been done in a vague or informal manner.

There are usually two main motivators for this:

- 1** Concern that specifying detailed requirements might lead suppliers to decide not to bid if they consider they would fall short.
- 2** Uncertainty about what exactly is required and how to specify it.

There are issues with this approach:

- Suppliers can interpret a minimal specification and propose a 'token' solution whilst still being compliant;
- Suppliers that do have an effective and complete solution aren't able to differentiate themselves in a quantifiable manner;
- Vagueness will discourage suppliers who may have an effective solution but are cautious of unstated requirements;
- The buyer may be left with a non-compliant solution yet unable to effectively dispute this with the supplier.

Specifying the Requirement

Improving outcomes when procuring software with a bilingual capability can invariably be achieved simply by providing a detailed specification of the requirements.

This will have been done for other areas of functionality, so that the supplier understands and commits to delivering exactly what is needed. A specific requirement produces a specific response that can be measured when making the purchasing decision and validated when the solution is delivered.

The degree of compliance you require and the exact set of requirements for each application will vary depending on its purpose and functional capabilities. Some, such as supporting the full character set should be mandatory, others may be aspirational. Here's some areas to consider when specifying these requirements:

- **Equivalence**
- **Completeness**
- **Selector**
- **Switching**
- **Initial Selection**
- **Language Quality**
- **Maintenance**
- **Changes**
- **Character Set**
- **Sort Order**
- **Preferences**
- **Accessibility**
- **Links**
- **Emails**
- **Search**
- **Addresses/Maps**
- **Reports**
- **User Assistance**
- **SEO**
- **Meta Data**
- **User Content**
- **Data Transmission**
- **Language Tools**
- **Usage Metrics**

Encouraging Suppliers to Bid

Where a solution needs to be bilingual, inclusion of detailed requirements might cause otherwise viable suppliers to decide not to bid if they assess they can't meet them cost-effectively or they can't justify the resource needed to meet them for what they may consider to be a relatively small market.

But, if the only suppliers bidding are those that already meet all the requirements this could mean an otherwise competent supplier does not bid, potentially the market leader or other preferred supplier.

So, how can we present the bilingual requirements in a manner that encourages maximum participation?

- 1 A clear and detailed specification of what is required will encourage suppliers.
- 2 Offer expertise and resources. This will reduce hassle, cost and perceived risk for suppliers less familiar with the bilingual context.
- 3 Suggest acceptable approaches and alternatives. For all or some requirements there may be existing approaches or resources.
- 4 Allowing for future development helps mitigate the investment risk for a supplier.
- 5 Express willingness to be a reference site. A potential gateway into the bilingual market can increase motivation.



Bilingual software enables users to interact in their preferred language, switch language at any time and provides equal capability in each language."

For an in-depth guide on procuring bilingual software and web solutions with greater detail on how to specify requirements, please email us at guidance@interceptorsolutions.com.



+44 (0)1633 439439



info@interceptorsolutions.com



www.interceptorsolutions.com

Caffael Meddalwedd Dwyieithog

Dyma eich canllaw cyflym ar sut i grynhoi eich gofynion dwyieithog mewn ffordd glir, ddiamwys a mesuradwy heb godi bwtanod i gyflenwyr.

Os ydych yn caffael meddalwedd ar ran sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i ddinasyddion Cymru, mae'n debygol y bydd rhaid i'r feddalwedd honno fod yn ddwyieithog. Mae hyn yn achosi heriau o ran sut i ddiffinio'r gofyniad a gwneud yn siŵr nad yw'n atal cyflenwyr posibl eraill rhag cynnig eu gwasanaeth.

Felly, sut mae dechrau arni?

Yr Heriau

Yn aml wrth gaffael meddalwedd neu ddatrysiad ar y we sydd angen bod yn ddwyieithog, gwneir hyn mewn ffordd annelwig neu anffurfiol.

Mae hyn yn deillio o ddau brif reswm fel arfer:

- 1 Pryder y gallai nodi gofynion manwl arwain at gyflenwyr yn penderfynu peidio â chyflwyno cais os ydynt o'r farn y byddent yn methu â darparu hynny.
- 2 Ansicrwydd ynghylch beth sydd ei angen a sut i gyfleu hyn.

Dyma'r problemau sy'n codi wrth wneud hyn:

- Gall cyflenwyr ddehongli'r fanyleb ar y lefel isaf a chynnig ateb 'tocenyaidd' sy'n dal i gydymffurfio;
- Nid yw'r cyflenwyr sydd ag ateb effeithiol a chyflawn yn gallu gwahaniaethu eu hunain mewn modd mesuradwy;
- Bydd manyleb annelwig yn atal cyflenwyr a allai fod ag ateb effeithiol ond sy'n dal yn ôl oherwydd gofynion sydd heb eu gwyntyllu;
- Efallai bydd y prynwr yn cael ateb yn y pen draw sydd ddim yn cydymffurfio ond mae'n bosib na fydd yn gallu herio hyn yn effeithiol â'r cyflenwr.

Disgrifio'r Gofyniad

Gellir gwella canlyniadau wrth gaffael meddalwedd sydd â galluoedd dwyieithog drwy ddarparu manyleb fanwl o'r gofynion.

Wedi'r cyfan, bydd yna fanyleb ar gyfer swyddogaethau eraill fel bod y cyflenwr yn deall ac yn ymrwmo i gyflawni'n union yr hyn sydd ei angen. Drwy lunio gofyniad penodol, bydd yn cynhyrchu ymateb penodol y gellir ei fesur wrth wneud y penderfyniad i brynu a bydd yn cael ei ddilysu pan gaiff y datrysiad ei ddarparu.

Bydd y gofynion cydymffurfio sydd eu hangen arnoch, a'r union set o ofynion ar gyfer pob ap yn amrywio yn dibynnu ar bwrpas a galluoedd y feddalwedd. Dylai rhai gofynion, megis gallu delio â'r holl symbolau a llythrennau fod yn orfodol, tra bo eraill yn fwy dymunol. Dyma rai meysydd i'w hystyried wrth nodi'r gofynion hyn:

- Cyfatebiaeth
- Cyfanrwydd
- Dewis iaith
- Newid iaith
- Y Dewis Cychwynnol
- Ansawdd iaith
- Cynnal a Chadw
- Newidiadau
- Set Nodau
- Trefn Didoli
- Dewisiadau
- Hygyrchedd
- Dolenni
- Negeseuon E-bost
- Adroddiadau
- Cyfeiriadau/Mapiau
- Cymorth i Ddefnyddwyr
- Chwilio
- Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO)
- Meta Ddata
- Cynnwys y Defnyddwyr
- Trosglwyddo Data
- Offer iaith
- Metrigau Defnyddio



Mae meddalwedd ddwyieithog yn galluogi defnyddwyr i ryngweithio yn yr iaith o'u dewis, yn eu galluogi i newid iaith unrhyw bryd, ac yn trin pob iaith yn gyfartal.”

Annog Cyflenwyr i Wneud Cais

Pan fydd angen i feddalwedd fod yn ddwyieithog, gallai cynnwys gofynion manwl achosi i gyflenwyr cymwys o bosibl benderfynu peidio â chyflwyno cais os ydynt yn credu na allant eu bodloni'n gost-effeithiol neu os na allant gyfiawnhau'r adnodd sydd ei angen arnynt i fodloni'r gofynion mewn marchnad gymharol fach.

Ond, os mai'r unig gyflenwyr sy'n cyflwyno cais yw'r rheini sydd eisoes yn bodloni'r holl ofynion, gallai hyn olygu na fydd cyflenwr eraill sy'n gymwys yn gwneud cynnig, er efallai eu bod yn arweinydd y farchnad neu'n gyflenwr arall a ffafir.

Felly, sut mae cyflwyno'r gofynion dwyieithog mewn ffordd sy'n denu'r cyfranogiad mwyaf posibl?

- 1 Bydd manyleb glir a manwl am yr hyn sydd ei angen yn annog cyflenwyr i gyflwyno cais.
- 2 Cynnig cyngor arbenigol ac adnoddau. Bydd hyn yn lleihau cost, trafferth a risg posibl i gyflenwyr sy'n llai cyfarwydd â'r cyd-destun dwyieithog.
- 3 Awgrymu atebion derbyniol ac opsiynau eraill. Efallai bydd dulliau neu adnoddau eisoes yn bodoli ar gyfer rhai neu bob un o'r gofynion.
- 4 Caniatáu datblygiadau yn y dyfodol er mwyn lliniaru'r buddsoddiad 'â risg'.
- 5 Mynegi parodrwydd i fod yn bwynt cyfeirio. Gallai hyn agor y drws i'r farchnad ddwyieithog gan roi mwy o gymhelliant iddynt.

I gael arweiniad manwl am gaffael meddalwedd dwyieithog, datrysiadau ar y we a sut i amlinellu'r gofynion, anfonwch e-bost atom cyngor@interceptorsolutions.com.



+44 (0)1633 439439



gwybodaeth@interceptorsolutions.com



www.interceptorsolutions.com